

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

Materion Ewropeaidd

Rhifyn 33 - Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygrych, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: Cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyflwyniad



Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 33 o'n cylchlythyr, Materion Ewrop, sy'n cynnwys y diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Lywydd David Melding AC, yn cynnal ymchwiliad pwysig iawn yn edrych ar agenda Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r UE, y ffordd y mae'r gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn ymwneud â'r broses hon a'r effaith bosibl ar ein cymwyseddau. Yn ystod ei ymweliad â Brwsel ym mis Hydref, cyfarfu'r Pwyllgor ag uwch-swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn y trafodaethau, yn ogystal â nifer o Aelodau o Senedd Ewrop, gan gynnwys dau o bedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop.

Fel cyn-aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau a dinesydd Ewropeaidd ymroddedig, rwy'n mawr obeithio y bydd pobl Prydain yn pleidleisio i aros yn yr UE. Mae'n bwysig bod pobl yn deall yr hyn y maent yn pleidleisio amdano, felly rwy'n falch o weld hynt gwaith prosiect y DU mewn UE sy'n Newid, a ariennir gan ESRC ac a lansiwyd ym mis Hydref ym Mhrifysgol Caerdydd gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Mae cyfres o seminarau ar y gweill yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, a chynhelir nifer ohonynt yn y Pierhead.

Disgwylir i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyflwyno'i adroddiad ar ei ymchwiliad i Botensial yr Economi Forol, sydd â dimensiwn Ewropeaidd cryf, yn enwedig drwy waith Rhodri Glyn Thomas AC fel rapporteur Pwyllgor y Rhanbarthau. Mabwysiadwyd adroddiad Rhodri Glyn ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Môr yn y cyfarfod llawn ym mis Hydref, sef y pedwerydd tro iddo gyflwyno'i farn yn y Gymraeg ym Mrwsel. Hefyd, cyflwynodd Mick Antoniw AC ei ail farn i Bwyllgor y Rhanbarthau yn ei gyfarfod llawn olaf ym mis Rhagfyr, wrth iddo roi'r gorau i'w rôl, gyda Joyce Watson AC yn cymryd ei le.

Rydym wedi cynnal nifer o ymweliadau i bwysigion i'r Cynulliad yn yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys ymweliadau gan Lysgenhadon Hwngari ac Awstria. Ym mis Hydref, roeddw'n yn falch o gael arwain dirprwyaeth y Cynulliad, gan gynnwys y Comisiynwyr Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, i'r Ariannin fel rhan o'r rhaglen i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia.

Ddiwedd mis Tachwedd, roeddwn i'n falch o ymweld â Malta, lle'r oeddwn i a Joyce Watson AC yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf Fforwm Menywod y Gymanwlad, a gynhaliwyd ym Malta fel rhan o Gyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad 2015.

Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Gan y bydd cymaint o ddeddfwriaeth o Gymru yn mynd ag amser y Pwyllgor tan yr etholiad, mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer ei waith Ewropeaidd. Bydd yn dilyn hynt cynigion yn yr UE sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor ac yn ceisio dylanwadu arnynt drwy ymgynghori'n ysgrifenedig a thrwy ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid. Lle y nodir unrhyw faterion ar gyfer Cymru, fe'u dilynir drwy gyfathrebu ysgrifenedig â sefydliadau'r UE a Llywodraeth Cymru. Mae rhestr o flaenoriaethau'r Pwyllgor ynghylch yr UE i'w gweld ar y dudalen Materion Ewropeaidd ar wefan y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro ac olrhain y coflenni a'r polisiâu Ewropeaidd sydd o ddiddordeb mwyaf iddo, ac mae wedi craffu Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar: weithrediad y PAC, rheoliad arfaethedig yr UE ar ffermio organig, cynigion bwyd a bwyd anifeiliaid GMO a chynigion bwyd, gweithrediad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a chynllunio gofodol morol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Rhaglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2016 a'r diweddaraf am ei waith ynghylch yr UE yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015.

Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Ymchwiliad i gyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 50 oed:** Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf. Ar 7 Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a'i swyddogion ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.
- **Sesiwn graffu yr UE:** Ar 23 Medi, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Lysgenhadon Cyllid yr UE, a chynhaliodd sesiwn graffu gyda Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar Raglenni Cyllid yr UE.
- **Yr Economi Forol:** mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i botensial yr economi forol i Gymru, gan gynnwys datblygu ynni'r môr. Mae'r ymchwiliad hefyd yn ystyried y cyfleoedd i Gymru yng 'Nghynllun Buddsoddi Juncker' a ffynonellau posibl eraill o gyllid. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn wybodaeth gyda swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morol ym mis Mawrth. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yn y Gogledd ym mis Gorffennaf gyda phorthladdoedd Cymru, Parc Gwyddoniaeth Menai a Phrifysgol Bangor. Hefyd, casglodd y Pwyllgor wybodaeth gefndirol yn ystod ei ymweliad â Brwsel/Lwcsembwrg. Ym mis Medi, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhodri Glyn Thomas AC ar ei farn ar ei fenter ei hun i Bwyllgor y Rhanbarthau, **Datblygu Potensial Ynni'r Môr**. Ar 15 Hydref, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynghorau lleol, datblygwyr ynni, Prifysgol Abertawe a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
- **Sesiynau dilynol ar Horizon 2020 a Erasmus +:** Ar 21 Hydref, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan addysg bellach ac uwch, y British Council a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.
- Ar 25 Tachwedd, clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Julie Williams CBE, Prif Swyddog Gwyddonol Cymru, am y cynnydd a wnaed o ran hybu ymchwil a gweithgarwch

cysylltiedig â STEM mewn ysgolion. Edrychodd y Pwyllgor hefyd ar sut mae arian Ewropeaidd wedi cefnogi'r gwaith hwn

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):** Mae'r Bil yn cynnwys cynigion i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus (yn unol â'r gwaharddiad ysmegu). Fel rhan o'i waith o graffu ar y cynigion hyn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried rôl Cyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE, a sut y gall hyn gyfrannu at wella ansawdd a diogelwch cynhyrchion e-sigarét, a chyfyngu ar eu hapêl i blant a'r rhai nad ydynt yn ysmegu. Disgwylir i'r Gyfarwyddeb gael ei rhoi ar waith yn yr Aelod-wladwriaethau yn 2016. Adroddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) erbyn 27 Tachwedd 2015.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Adroddiad ar Sybsidiaredd:** Cafodd yr adroddiad monitro ar faterion sybsidiaredd sy'n berthnasol i Gymru sy'n deillio o gynigion deddfwriaethol drafft yr UE, ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin i fis Awst, ei nodi yn y cyfarfod ar 16 Medi.
- **Refferendwm ar yr UE:** Yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin, ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Comisiwn Etholiadol a oedd yn galw am sylwadau am eiriad arfaethedig cwestiwn y refferendwm ym Mil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Iau 28 Mai. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn Etholiadol yn rhoi ei farn am gwestiwn y refferendwm ar 16 Mehefin.
- **Cynnig ar gyfer Rheoliad Ewropeaidd ar organebau a addaswyd yn enetig:** Ar 22 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn a yw'n disgwyl gwneud penderfyniadau ar y defnydd o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb arfaethedig yr UE. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ar 23 Medi.
- **Ymchwiliad am agenda Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r UE:** Mae'r ymchwiliad byr yn edrych ar effaith bosibl agenda Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r UE ar gymwyseddau datganoledig yng Nghymru, a sut y mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn y broses hon. Aeth y Pwyllgor ar ymweliad â Brwsel ym mis Hydref 2015 am gyfres o gyfarfodydd gydag Aelodau o Senedd Ewrop, gan gynnwys Derek Vaughan a Nathan Gill, a swyddogion blaenllaw, gan gynnwys Jonathan Faull, Pennaeth Tasglu'r Comisiwn Ewropeaidd ar Refferendwm UE y DU. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth i Bwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi yn y Cynulliad ar 19 Hydref 2015. Mae'r Pwyllgor yn debygol o ymgymryd â gwaith pellach ar hyn yn y flwyddyn newydd.
- **Fforwm EC-UK:** Nid oedd y Dirprwy Lywydd David Melding AC yn gallu dod i gyfarfod y Fforwm EC-UK yn Belfast ar 27 Tachwedd oherwydd gwaith y Pwyllgor ar Fil Cymru drafft. Mae'r cyfarfod hwn, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, yn dwyn ynghyd Gadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd (a chyfatebol) yn Nhŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

- 13 Hydref: cafwyd datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, gyda dadl yn dilyn, ar hynt rhaglenni cyllid yr UE
- 14 Hydref: Gofynnodd Andrew RT Davies AC Gwestiwn Brys ynghylch y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Ewropeaidd Cymru Gyfan.

Noder: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml yn natganiadau'r Gweinidogion ac mewn cwestiynau i Weinidogion.

Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 12 Hydref: Ymwelodd y Cadeirydd David Melding AC, Alun Davies AC a William Powell AC â Brwsel fel rhan o'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Agenda Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio'r UE
- 12-13 Hydref: Mynychodd Rhodri Glyn Thomas AC gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel a chyflwynodd ei adroddiad ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Môr yn Gymraeg, a fabwysiadwyd gyda chefnogaeth drawsbleidiol
- 12-13 Hydref: Roedd Mick Antoniw AC yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 22 Hydref: Mynychodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, gyfarfod Cynulliad Cyffredinol CALRE, a gynhaliwyd ym Milan, a rhoddodd y diweddaraf am y Gweithgor Cydraddoldeb Rhywiol, y cadeiriodd yn 2015.
- 27 Hydref - 5 Tachwedd: Arweiniodd y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC, ynghyd â Chomisïynwyr y Cynulliad, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, ymweliad â'r Ariannin. Dyma oedd ymweliad cyntaf y Cynulliad â De America, oedd yn canolbwyntio ar raglen o gyfarfodydd â'r cymunedau Cymreig yn Chubut fel rhan o'r dathliad 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia.
- 16 - 17 Tachwedd: Aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, William Powell AC, Joyce Watson AC, Lindsay Whittle AC a John Griffiths AC i 51^{fed} Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig yn Cheltenham (y DU). Trafododd Cyfarfod Llawn y Gynhadledd yr Undeb Ewropeaidd yn Iwerddon a Phrydain, a chafwyd anerchiad gan Weinidog y DU dros Ewrop, David Lidington AS.
- 22 - 24 Tachwedd: Roedd y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC a Chadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Joyce Watson AC, yn bresennol yn y Fforwm Menywod cyntaf, a gynhaliwyd ym Malta fel rhan o Gyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad 2015.
- 2-3 Rhagfyr: Roedd Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.

Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

- 24 Medi: ymwelodd Ei Ardderchowgrwydd Mr Patrick Engelberg, Llysgennad Lwcsembwrg, â'r Cynulliad i amlinellu blaenoriaethau Lwcsembwrg yng nghyfnod ei Llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.
- 6 Hydref: daeth Mr David Usupashvili, Llefarydd Senedd Georgia, ar ymweliad â'r Cynulliad, gan gwrdd â'r Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC.
- 11 Tachwedd: cynhaliodd y Llywydd Fonesig Rosemary Butler ddarlith gan yr Athro Syr Deian Hopkin "Keir Hardie: Myfyrdod Canmlwyddiant" fel rhan o'r gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant ers y Rhyfel Byd Cyntaf.
- 18 Tachwedd: daeth dirprwyaeth o Grŵp Cyfeillgarwch Seneddol Prydeinig y Deutscher Bundestag, ar ymweliad â'r Cynulliad, gan gwrdd â'r Dirprwy Lywydd David Melding AC ac Aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.
- 25 Tachwedd: daeth Ei Ardderchogrwydd Mr Peter Szabadhegy, Llysgennad Hwngari, ar ymweliad â'r Cynulliad a chyfarfu â'r Dirprwy Lywydd David Melding AC.
- 9 Rhagfyr: daeth Ei Arddechogrwydd Dr Martin Eichinger, Llysgennad Awstria, ar ymweliad â'r Cynulliad a chyfarfu â'r Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC.

Digwyddiadau a Chynadleddau Rhyngwladol yn y Senedd

- 8 Gorffennaf: cynhaliodd y Cynulliad Wasanaeth Coffa arbennig, a gynhaliwyd ar y cyd yn y Senedd gan y Dirprwy Lywydd David Melding AC a'r Prif Weinidog Carwyn Jones AC i nodi 20 mlynedd ers hil-laddiad Srebrenica.

Lincs

- Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Hysbysiad Busnes y Cynulliad
- Tudalennau'r pwyllgorau
- Tudalennau'r Gwasanaeth Ymchwil

Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE (Gregg.Jones@Cynulliad.cymru)

Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Cymru

6ed Llawr

Rond Point Schuman 11

1040 Brwsel

Gwlad Belg

Ffôn **0032 2 226 66 92**

Symudol **0032 466 315750**

Dilynwch ni ar Twitter: [@SeneddEurope](https://twitter.com/SeneddEurope)

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel (Pedwerydd llawr)

Bae Caerdydd

Caerdydd CF99 1NA

0044 (0)300 200 6255 / 6256

TimRhyngwladol@Cynulliad.Cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr bostio, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.